**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 3ydd Hydref 2001 am 10.00a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, G.A. Clague, A.E. Fletcher-Williams, M.A. German, K.N. Hawkins, N. Hugh-Jones, G. Jones, M.M. Jones (Dirprwy ar ran M.Ll. Davies), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, G.M. Kensler (Dirprwy ar ran N.J. Hughes), E.A. Owens, W. Roberts (Dirprwy ar ran P. Douglas), F. Shaw, J.A. Smith, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Uwch-Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio a Gorfodi, Swyddog Gweinyddu (G. Butler) a Chlerc (Mrs R. Hughes).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr D.W. Davies, M.Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew, I.M. German, D.M. Holder, N.J. Hughes, R.W. Hughes, J.S. Kerfoot-Davies, K.P. Stevens ac S. Thomas.

Cynigiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones ymddiheuriadau'r Cynghorydd S. Kerfoot-Davies a oedd i ddirprwyo ar ran y Cynghorydd S. Thomas.

Gofynnodd y Cynghorydd Hugh-Jones fod y Pwyllgor yn ystyried derbyn y dirprwyad yn ystod y cyfarfod petai'r Cynghorydd Kerfoot-Davies yn cyrraedd. Dymunai'r Cynghorydd Kerfoot-Davies siarad ar fater lleol yn Nyserth a gofynnodd y Cynghorydd Hugh-Jones ymhellach fod yr eitem hon i'w dal yn ôl tan mor hwyr â phosibl yn agenda'r cyfarfod.

***PENDERFYNODD** y Pwyllgor:-*

*(a) bod yr eitem ar dir yn Hen Neuadd yr Ysgol, Dyserth i'w thrafod fel y cais cynllunio olaf ar yr agenda;*

*(b) y gallai'r Cynghorydd Kerfoot-Davies siarad fel Aelod Lleol pan gyrhaeddai, a*

*(c) NAD oedd y dirprwyad i'w dderbyn unwaith yr oedd y cyfarfod wedi cychwyn gan y byddai hynny'n gosod cynsail.*

**Melyd Avenue, Prestatyn**

Cyhoeddodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio na fyddai'r eitem hon yn cael ei rhoi gerbron y Pwyllgor heddiw. Dymunai'r Cynghorydd N. Hugh-Jones iddo gael ei nodi ei bod yn ofid ganddo na fyddai'r eitem hon yn cael ei thrafod.

**638. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf*

*Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 07/2001/0663/PF | (Ar ôl ystyried adroddiad diwygiedig a gylchredwyd yn y cyfarfod a dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: A. & P. Granville, 4 Rhos Llan, Llandrillo a P. & S. Lines, Penrhos, Llandrillo).<br>Codi dwy annedd a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau a cherddwyr ar Dir yn gyfagos i Llys Y Coed, Llandrillo, Corwen.<br>YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol:-<br>Nid yw manylion y ffenestr a ddangosir yn gwasanaethu ystafell wely 3 unedau 1 a 2 ar y cynllun ynghlwm wrth y dystysgrif hon i fod o adeiladwaith math dormer ond mae i fod o fath Velux, y mae ei fanylion i fod fel y gall gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn y datblygu.<br>RHESWM - Er mwyn diogelu preifatrwydd/amwynder y rhai sy'n byw mewn tai preswyl cyfagos. |
| 30/2001/0765/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Trefnant a Phennaeth Priffyrdd)<br>Codi 1 annedd lefel wahân gyda garej integrol ar dir rhwng 4 a 5 Clwydian Park View, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhif [1, 2, 4, 5 a 10 ] sydd ynghlwm.<br>Tynnir eich sylw at y nodiadau sydd ynghlwm yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros droedffordd/llain ymyl ffordd dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980. |
| 42/2001/0666/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno achos oddi wrth y Swyddog Llwybrau)<br>Gwaith cloddio, codi waliau cynhaliol a rheiliau dur a darparu llawr caled i ddarparu lle parcio ceir ar gyfer Rhif 1 Hen Neuadd yr Ysgol (cynllun diwygiedig i'r un a gymeradwywyd dan Gyfeirnod 42/2001/190/PF) (Yn rhannol ôl-weithredol) ar dir y tu ôl i'r Hen Neuadd Ysgol, Stryd Fawr, Dyserth, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig 1 a nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd:-<br>1. ychwanegu "ac nid yw i'w ddefnyddio i storio cerbydau, defnyddiau neu at unrhyw bwrpas arall".<br>RHESWM - er lles diogelwch y briffordd ac amwynderau preswyl a gweledol.<br>Nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd:-<br>Ychwanegu "Awgrymir eich bod yn cysylltu â Swyddog Hawliau Tramwy'r Cyngor, Adrian Walls (01824 706871) cyn y gwneir unrhyw waith pellach i gadarnhau pa ffordd mae'r llwybr yn mynd ar draws y tir a'ch dull gweithio.<br>(Dymunai'r Cynghorydd N. Hugh-Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio'n erbyn y cynnig i Roi caniatâd cynllunio) |

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig

Penderfynwyd: Rhoi Caniatâd Adeilad Rhestredig, yn amodol ar gyfeirio'r ceisiadau i Cadw ac ar yr amod na chaiff y ceisiadau eu galw i mewn i'w penderfynu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

| | |
|---|---|
| 08/2001/0707/LB | Atgyweiriadau i'r to allanol a mewnol, wal, llawr, newid i'r ffenestri, estyniad i ffurfio ystafell fwyler newydd a chyfnewid canopi, cyfnewid canopi mynediad am ganopi â gorchudd plwm yn Plas Yn Faerdref, Cynwyd, Corwen. |
| 46/2001/01069/LB | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth y Gymdeithas Henebion a'r Cynghorydd Sir A. Thomas)<br>Dymchwel yr adeilad presennol yn Elwy Bank, Stryd Fawr, Llanelwy. |

(iii) Gwrthod

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 43/2001/0860/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn)<br>Datblygu 0.25hectar o dir drwy godi un annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (Cais amlinellol) ar dir yn 74 y Tu Ôl i 76/78 Ffordd Gronant, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar reswm diwygiedig:-<br>Rhoi "annymunol" yn lle "nas dymunir".<br>(Dymunai'r Aelodau canlynol iddo gael ei nodi eu bod wedi atal eu pleidlais ar y cynnig hwn - Cynghorwyr C.E. Williams, G. Kensler a P. Tobin - ac y pleidleisiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones i Roi caniatâd) |

*(b) bod y ceisiadau canlynol i'w gohirio er mwyn gallu ymweld â'r safleoedd am y rhesymau a nodwyd:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 42/2001/0761/PF | Addasu, estyniad a newidiadau i'r ty allan presennol i ffurfio rhandy hunangynhwysol i'w ddefnyddio'n atodol i'r brif annedd yn Bodnant Forge a chodi garej ddwbl ar wahân yn Bodnant Forge, Penisa, Dyserth, Y Rhyl.<br>(I asesu graddfa'r datblygiad ac agosrwydd yr anheddau presennol) |
| 45/2001/0799/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Robert Jones a Brookes Parry, Cyfreithwyr ar ran Mrs Fox, 46 Lynton Walk.)<br>Codi estyniad to serth deulawr wrth ochr y ty annedd yn 44 Lynton Walk, Y Rhyl.<br>(I asesu effaith yr estyniad arfaethedig ar dai cyfagos) |

**639. <u>MATER GORFODI</u>**

**<u>ENF/525/97/S</u>**

Torri Rhybudd Gorfodi a Hysbysiad Stop mewn perthynas ag Amod Rhif 15 Caniatâd Cynllunio Rhif Côd 15/400/97/S - Dirgryniad yn deillio o danio sy'n mynd dros y lefel uchaf a ganiateir o 12 mm yr eiliad cyflymder gronynnau brig yn Chwarel Pant y Gwlanod, Eryrys, Ger Yr Wyddgrug.

***PENDERFYNWYD** bod awdurdodiad i'w roi ar gyfer y canlynol:-*

*(a) gyda golwg ar yr holl ffactorau perthnasol nis ystyrir hi'n fanteisiol mynd ar drywydd achos erlyn ffurfiol neu unrhyw gamau ffurfiol eraill yn erbyn torri'r Rhybudd Gorfodi a'r Hysbysiad Stop;*

*(b) dylai Swyddogion asesu'r darlleniadau dirgryniad a ddarparwyd gan weithredwr y chwarel am y cyfnod 29ain Mawrth 2001 i'r 8fed Gorffennaf 2001, pan fyddant yn dod ar gael a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor petaent yn datgelu bod y cyfyngiad dirgrynu o*

*12mm yr eiliad yn cael ei dorri'n arwyddocaol ac yn fynych. Byddai hyn yn caniatáu i'r Aelodau ystyried gwybodaeth ychwanegol bellach nad yw ar gael ar hyn o bryd, pe byddid yn ystyried y gall yr wybodaeth gael effaith ar unrhyw benderfyniad a wneir, a*

*(c) petai gweithgareddau'n ailgychwyn ar y safle, yna mae Swyddogion i fonitro cymaint o ffrwydriadau â phosibl ar y cyd â gweithredwr y chwarel, a chyflwyno adroddiad i Bwyllgor yn y dyfodol petai Swyddogion yn ystyried bod lefel a mynychder unrhyw dor-rheolau yn cyfiawnhau camau pellach.*

**640. <u>DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE</u>**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar ddydd Llun, 5ed Hydref 2001 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar Ddydd Llun, 5ed Hydref 2001.*

**641. <u>RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 19eg Awst 2001 a'r 14eg Medi 2001.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Gofynnodd y Cynghorydd E.A. Owens iddo gael ei nodi na ddylid gweld y penderfyniad i gymeradwyo mast ffôn symudol ar Faes Golff Y Rhyl fel arwydd o gydoddef yr egwyddor o godi mastiau mewn mannau cyhoeddus. Byddai Cyngor Sir Ddinbych, fel tirfeddiannwr, yn parhau i wrthwynebu lleoli adeiladweithiau o'r fath ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

**642. <u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol am ei bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**643. <u>MELYD AVENUE, PRESTATYN</u>**

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio nad oedd hi'n bosibl cyflwyno'r adroddiad hwn i'r pwyllgor heddiw gan -

(i) Y teimlid y dylai'r Aelodau gael digon o amser i ystyried yr adroddiad;

(ii) y gall cyfraith achosion ddiweddar fod â pherthnasedd uniongyrchol a bod angen iddi gael ei hymchwilio, a

(iii) byddid yn gofyn am farn Cwnsler ar ddilysrwydd y caniatâd cynllunio a roddwyd yn 1980.

Gwerthfawrogwyd y dylai'r mater hwn gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl a byddid yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf ar 31ain Hydref 2001.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20a.m.

************